

DOLEN Y TAB 120

9 - 10 Medi 2022

Oedfa Sul 11 Medi am 11

Y Parchedig Aled Edwards gyda Ceri Anwen yn llywyddu a Bethan Roberts wrth yr organ

YR OEDFAON NESAF

Medi

- 18 Dr Nathan Munday
- 25 Y Parchedig Gethin Rhys gydag Eleri Mai yn llywyddu

Hydref

- 2 Ann ac Emlyn Davies
- 9 Y Parchedig Aled Edwards gyda'r Parchedig Eirian Rees yn llywyddu.

Hefydd ddydd Sul 11 Medi

12.00 Radio Cymru

Oedfa dan arweiniad Ann Lewis, Capel Helyg, Eifionydd.

12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 S4C – Dechrau Canu Dechrau Canmol

Bydd Nia yn treulio amser gydag Arfon Wyn, Cristion sy'n rhannu ei weledigaeth yn ei ganeuon ac yn rhoi ei egwyddorion ar waith yn ei fywyd bob dydd.

E-fwletin Cristnogaeth 21

www.cristnogaeth21.cymru

Wedi hoe fach fis Awst, ailddechreuodd y bwletin ddydd Sul diwethaf, ond mae'n werth troi'r cloc yn ôl mymryn bach er mwyn darllen y cyfraniad 'anhysbys' a ymddangosodd ddydd Sul 4 Medi hefyd.

Brysiwch wella

Dymunwn adferiad llwyr a buan i Roy Davies, Meisgyn, yn dilyn damwain gafodd wrth gerdded ar fynydd Llantrisant yn ddiweddar. Da clywed bod criw o bobl ifanc o Bentre'r Eglwys wedi gofalu amdano yn dilyn y godwm a'i gario i lawr i'r fan lle roedd modd iddo gael ei gludo i'r ysbyty. Bu raid iddo gael triniaeth llawfeddygol yno cyn gwella'n ddigon da i ddychwelyd gartref.



YN GALW
POBOL IFANC
BL 5 A 6



TWMIAID BACH

Dydd Sul 18fed o Fedi

3.30 - 5.00

BANCAU BWYD

Gyda'ch haelioni parhaus, fe lwyddodd y Tabernacl i rannu £1,540 rhwng Banc Bwyd Taf Elái a Banc Bwyd Salem, Tonteg yn ystod mis Awst, i'w cefnogi wrth iddyn nhw wynebu galw cynyddol yn ystod gwyliau ysgol. Diolch o galon i chi.

A ninnau bellach ar drothwy'r hydref, a'r gaeaf yn nesáu, bydd wynebu cynnydd mewn costau byw yn arteithiol i lawer iawn o deuluoedd, ac mae'n braf gwybod ein bod yn medru parhau â'n cefnogaeth.

Medrwch gyfrannu yn y dulliau arferol, trosglwyddiad banc neu siec, drwy Arwyn, ein Trysorydd.

Diolch yn fawr i chi am eich cyfraniadau dros y blynnyddoedd. Bydd angen ein cefnogaeth am flynyddoedd i ddod.

Y GWEITHGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

TWMIAID

DYDD SUL 18FED O FEDI

5 - 6.30

CROESO CYNNES I
BOBL IFANC BL 7+



Pigion o'r Gwefannau

Caneuon ein Ffydd?

Ym mis Awst lanswyd gwefan newydd Cristnogaeth21 [<https://www.cristnogaeth21.cymru>] yn y gobaith y byddai'n cynnig llwyfan ffres a chyfoes o ran ei ddiwyg a'i gynnwys. Mae'n llawer iawn rhy gynnar eto i osod llinyn mesur dros ei gynnwys ond mae'r diwyg yn ddeniadol i'r llygaid. Llawer pwysicach, fodd bynnag, yw'r sicrwydd nad oes newid yng ngweledigaeth y mudiad, sef cynnig llwyfan i drafod a dehongli'r ffydd Gristnogol mewn modd radical, rhyddfrydig a blaengar. Gan mai tair wythnos yn unig sydd ers ei lansio mae'n anochel mai digon tenau yw'r cynnwys 'newydd' mor belled, ond mae dolen ynddo sy'n galluogi ymweld â chynnwys yr 'hen' fersiwn sydd â chyfoeth o adnoddau gwerthfawr megis ôl-rifynnau Agora, y cylchgrawn digidol deufisol.

Ymhlith yr eitemau newydd ar y wefan mae sylwadau beimiadol iawn am addasrwydd trwch o'r emynau a geir yn *Caneuon Ffydd*. Er i'r gyfrol gael ei chyhoeddi ar ddechrau'r ganrif hon, cynnyrch y 18fed a'r 19eg ganrif yn bennaf geir ynddi. Cwyn awdur y blog yw fod yr emynau hyn yn 'gyforiog o gyfeiriadaeth Feiblaidd sy'n ddieithr iawn i glustiau'n hoes ni. Maen nhw hefyd yn difaru o drosiadau Calfinaidd dramatig ac yn drymlwythog â chysyniadau athrawiaethol a ystyrir yn geidwadol, a hyd yn oed yn ormesol, yn ein dyddiau ni.' Ond eto, mae'n rhyfeddu bod cynulleidfaoedd ein capeli yn hapus i'w canu'n gwbl anfeimiadol.

Mae'n parhau drwy holi'r cwestiwn - *Ond i ba raddau mae'r emynau a gennir gennym ... yn adlewyrchu ethos ein cyfnod a'r pynciau sydd o ddiddordeb... heddiw – yr amgylchedd, cadwraeth a llygredd, cyfiawnder cymdeithasol ac anghydraddoldeb economaidd byd-eang, cydraddoldeb yn nhermau rhywioldeb a rhywedd, amrywiaeth ieithyddol a diwyllianol?*

Gan i'r blog gael ei gyfansoddi ar drothwy'r Eisteddfod yn Nhregaron mae'n ddiwyg annog rhai i gael ysbrydoliaeth o gynnyrch beirdd yr eisteddfod i fynd ati eu hunain, neu annog eraill, i lunio emynau sy'n 'adlewyrchu pryderon, gobeithion a daliadau Cristnogion yr unfed ganrif ar hugain' gan fod angen mynegi pryder 'y Crist byw am y materion hyn'. Os am ddarllen yr eitem yn llawn ewch i adran blogiau gwefan Cristnogaeth21.



Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 13 Medi. Os oes gennych gwestiwn i'w holi neu fater yr hoffech i'r Bwrdd ei drafod, rhowch wybod i'r Ysgrifennydd erbyn nos Lun 12 Medi (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205).



PANED A CHLONC
Dewch am glonc gyfeillgar ac hamddenol

CUPPA AND A CHAT
Come for a friendly and relaxed chat




Bob Dydd Mawrth
Every Tuesday
10.30-12.00

Y Ganolfan
Capel Tabernacl
The Vestry,
Tabernacl Chapel



Cranogwen

Pregethwr Ysgolfeistres
Ymgyrchudd Darlithydd Ffrind
Morwres
Golygydd Bardd



6.10.22 - 7.30yh
Tocynnau £12 / Gostyngiadau £8
Addas i oedran 14+
I archebu lle ewch i:
www.bookwhen.com/gartholwg

Canolfan Garth Olwg Centre
gartholwglic
Heol Saint Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ

01443 570075

Llogi'r Capel / Ganolfan

E-bostiwch
gehpengwern@yahoo.co.uk
Neges Testun
07710 237327
Ffonio
01443 225205

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledau newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org. Gofynnir i chi anfon newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk